"Os mynni fod yn berffaith, dos, gwerth dy eiddo a dyro i'r tlodion, a chei drysor yn y nefoedd; a thyrd, canlyn fi."
(Mathew 19:21)

Dyma'r Arglwydd Iesu yn ateb cwestiwn llywodraethwr ifanc Iddewig ynglŷn â bywyd tragwyddol. Wrth edrych ar eiriau Iesu wrth y dyn ifanc yn y paragraff yma, down i weld yn glir beth yw telerau bywyd tragwyddol. Ond gair o gefndir i gychwyn.

Rhywbeth ar goll

Mae'n rhyfedd meddwl bod arweinydd ysbrydol yn Israel yn dod at Iesu i ofyn ynglŷn â bywyd tragwyddol. Dyma ddyn oedd yn aelod o'r Cyngor (Luc 18:18) ac o bosib yn arweinydd mewn synagog, yn athro crefyddol, gyda rhywbeth ar goll yn ei brofiad. Nid yw'n siŵr y caiff fywyd tragwyddol, ac mae wedi dod i'r casgliad fod na ryw weithred dda nad yw wedi cyrraedd ato eto i lenwi'r bwlch yn ei enaid. Mae atebion Iesu iddo yn dangos i ni wir amodau bywyd tragwyddol.

Cyffes o bechod ac angen

Mae'r gŵr ifanc yn tybio y daw bywyd tragwyddol trwy gyflawni daioni. Mae'r Arglwydd Iesu yn ceisio'i oleuo, ond yn ofer i bob golwg. Mae'n dweud wrtho mai dim ond un sy'n dda, sef Duw (a bod ei ddaioni Ef yn absoliwt). Mae'n ei atgoffa o'r gorchmynion sydd yn ymwneud â charu'n cymydog fel ni ein hunain, sydd y tu hwnt i ni, wrth gwrs, ond mae'r gŵr ifanc yn tybio ei fod wedi eu cadw.

Mae'n ddyn moesol, crefyddol a 'da'. *"Mae person moesol yn ddigon da i'w dwyllo ei hun ac yn ddigon drwg i'w ddamnio'i hun"* (A.W.Tozer). Nid yw'n gweld bod dal gafael yn ei gyfoeth yn golygu nad yw'n fodlon addoli Duw â'i holl galon, ac mae'n golygu hefyd nad yw wir yn caru ei gymydog anghenus a thlawd.

Yn hytrach na chyffesu fod safon Duw y tu hwnt iddo, a cheisio troi at Grist, mae'n troi ymaith oddi wrth yr Arglwydd Iesu mewn tristwch. Mae hanes y cyfarfyddiad yma yn drist iawn ac yn diweddu mewn trasiedi. Os na welwn realiti ein pechodau a'n diffygion affwysol gerbron Duw, welwn ni byth yr angen dybryd sydd arnom am Waredwr ac Iachawdwr.

Ymddiried yng Nghrist

Yna mae'r Arglwydd Iesu yn ei annog i'w ddilyn Ef. Mae'n agor y drws i lwybr

gwahanol iddo. Mae'n ei gyfeirio oddi wrth ei hunangyfiawnder, at gyfiawnder Crist. Mae'r Efengyl yn cyhoeddi yn glir mai un ffordd sydd at Dduw, sef trwy haeddiant Iesu Grist. Un bont sydd rhwng nef a daear. **"Oherwydd un Duw sydd, ac un cyfryngwr rhwng Duw a dynion, sef Crist Iesu, yntau yn ddyn"** (1 Tim. 2:5).

Iesu Grist yn unig sydd wedi byw bywyd da yng ngolwg Duw, Ef yn unig sydd wedi byw yn gyfiawn ac wedi bodloni safon y Nef. Felly, yr unig ffordd o gael ein derbyn gan Dduw yw trwy ffydd yn Iesu Grist, sydd wedi offrymu ei fywyd yn iawn tros ein pechodau ni. Does dim lle i'n cyfraniad ni i ennill bywyd tragwyddol. Ni all Duw dderbyn *Crist + moesau, Crist + gweithredoedd da,* neu *Crist + bedydd/aelodaeth eglwysig*. Unig amod derbyniad llawn gan Dduw yw ffydd yng nghyfiawnder Crist. Yr un ffordd, yr un bont sydd i bawb o bob gradd ac o bob lliw a llun. Mae'n drist i feddwl fod nifer o grefyddwyr Cymru wedi cael eu dysgu bod eu moesau da yn mynd i ennill bywyd tragwyddol iddynt; bod ymdrechion da, ymuno â chapel neu eglwys, yn mynd i gyfrannu at dderbyniad gan Dduw yn y pendraw.

Mae dysgeidiaeth fel hyn yn arwain at hunan-dwyll dieflig. Byddai'n well cael dim crefydd o gwbl na chrefydd i'n pellhau oddi wrth Dduw. Mae agwedd fel hyn hefyd yn sarhad ar y Gwaredwr. Dywed yr Efengyl mai offrwm Crist o'i fywyd glân yn unig all foddio safon Duw, ac mae dysgu pobl yn wahanol yn dangos amarch o'r mwyaf i'n Prynwr bendigedig.

Ildio i Grist

Ond mae'r geiriau 'canlyn fi' yn golygu ildio'n llwyr i Grist hefyd. Ni all fod yn Waredwr i'n hachub oddi wrth ein pechodau heb fod yn Arglwydd ar ein holl fywyd.

Roedd gan yr arweinydd ifanc yma ddiddordeb mewn bywyd tragwyddol. Roedd ganddo ddiddordeb yn Nuw ac yn Iesu Grist. ***Ond roedd ganddo ddiddordeb mwy mewn rhywbeth arall*** – sef ei gyfoeth a'i barchusrwydd a'i foesoldeb.

Roedd yn ddyn crefyddol, moesol ond ***colledig*** heb Grist. Ni fyddai byth yn cael y tangnefedd a'r rhyddid mewnol oedd ar goll, y bodlonrwydd a'r sicrwydd nad oedd wedi cael gafael arno eto. Ni fyddai byth yn cael y bywyd tragwyddol heb ollwng pob eilun er mwyn cael Crist.